**Archived:** Dydd Iau, 16 Ionawr 2025 11:30:24
**From:** [redacted]
**Mail received time:** Sun, 22 Mar 2015 10:56:40
**Sent:** Sun, 22 Mar 2015 10:56:38
**To:** [redacted]
**Subject:** Llwybr rhif 12 - ardal Treborth
**Importance:** Normal
**Sensitivity:** None

---

Annwyl Mr Williams
Maddeuwch i mi ysgrifennu atoch ond nid wyf yn siwr pwy yw'r person iawn i gysylltu ag o.
Yng nghyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Pentir cafwyd gwybodaeth fod rhai o drigolion ardal Treborth wedi eu hatal rhag cerdded ar lwybr y maent wedi ei ddefnyddio ers blynyddoedd. Mae hyn yn ganlyniad i werthiant Ysgol Treborth yn ddiweddar. Mae'r perchennog newydd yn sicr nad oes hawl tramwyo ar y rhan y mae'r trigolion wedi ei ddefnyddio. Mae'n bosib felly fod hyn yn wir a bod y trigolion wedi camu oddi ar y llwybr swyddogol.
Tybed all rhywun o'r adran gael golwg ar y sefyllfa ac adrodd yn ol i ni.
Diolch am eich sylw

Yn gywir

Dilwyn Pritchard
Clerc dros dro

**Ynghylch cais am lwybr cyhoeddus yn Nhreborth**

Gwnaf i, Dilwyn Pritchard o [redacted] y datganiad hwn a dywedaf fel a ganlyn:

1. Roeddwn yn Glerc i Gyngor Cymuned Pentir (CCP) rhwng 2002/2003 a 2013.

2. Ar ddechrau 2015, mi wnaeth bwrdd CCP ofyn a fyddwn yn dod yn ôl fel Clerc dros dro oherwydd mi roeddent yn cael ychydig o drafferth cael rhywun i lenwi'r swydd.

3. Parthed fy e-bost dyddiedig 22ain o Fawrth 2015 at Mr Williams, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, roedd CCP wedi cael cyfarfod ychydig wythnosau cyn i mi yrru'r e-bost hwn.

4. Yn yr e-bost hwn roeddwn yn adrodd am wybodaeth a ddaeth ar lafar gan gynghorwyr yn ystod y cyfarfod yn dweud bod y trigolion lleol wedi cysylltu i ddatgan eu bod yn cael trafferth cerdded heibio hen Ysgol Treborth. Roedd y cynghorwyr yn dweud bod y perchnogion newydd wedi stopio rhai o drigolion lleol a oedd yn cerdded heibio fel yr oeddent wedi arfer ei wneud. Rwyf yn ymwybodol bod llawer o drigolion yn defnyddio hwn fel 'short cut'.

5. Mae'r cyfarfod hwn flynyddoedd yn ôl bellach ac nid oes gennyf gopi o gofnodion y cyfarfod. Mi roedd CCP ar y pryd yn defnyddio stordy ym Mharc Menai nes iddynt symud ac mae'n bosib bod y cofnodion wedi eu colli adeg hon.

6. Yn ystod fy amser yn Glerc CCP rhwng 2002/2003 a 2013, ni dderbyniais unrhyw ohebiaeth gan drigolion i ddweud bod nhw wedi cael trafferth cerdded heibio hen Ysgol Treborth. Hyd y gwn i, ni wnaeth unrhyw broblemau godi nes i'r hen Ysgol gael ei gwerthu i'r perchnogion newydd. Yn dilyn hynny, daeth adroddiadau o broblemau i sylw'r cynghorwyr yn gynnar yn 2015.

**Dyddiedig:.........................................................**

**Llofnod:.............................................................**